Argymhellion yr Adroddiad Blynyddol – ADOLYGWYD ym mis Gorffennaf 2020, cyhoeddwyd ym mis Awst

Diweddariadau Chwarterol ar gyfer y wefan

**COVID-19: Roedd diweddariad i'r ddogfen hon i fod i gael ei chyhoeddi ym mis Ebrill 2020 yn dilyn adolygiad llawn ar draws pob ardal ym mis Mawrth 2020. Wedi i ni adolygu cynnydd yn erbyn pob maes, bu'r wlad o dan gyfyngiadau symud oherwydd Covid-19 ac o ganlyniad mae llawer o ddarnau o waith polisi'r Llywodraeth wedi cael eu hatal dros dro neu eu hoedi. Ar y cychwyn, wnaethon ni ddim cyhoeddi adolygiad ym mis Ebrill fel roedden ni wedi bwriadu, ond rydyn ni'n credu ei fod yn bwysig nawr cyhoeddi'r sefyllfa ddiweddaraf er mwyn bod yn dryloyw. Lle roedd modd, rydyn ni wedi ceisio adlewyrchu a yw'r gwaith wedi'i atal dros dro ar hyn o bryd oherwydd Covid-19.**

Bob blwyddyn, trwy fy adroddiad blynyddol, rwy'n cyflwyno argymhellion i Lywodraeth Cymru ynghylch y materion polisi allweddol lle hoffwn i weld gweithredu yn ystod y 12 mis nesaf. Yn ystod y flwyddyn bydda i'n mynd ar ôl yr argymhellion hyn trwy gyfarfodydd gyda Gweinidogion a Dirprwy Weinidogion, swyddogion arweiniol, a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys plant a phobl ifanc.

Lle mae argymhellion wedi cael eu cynnwys ar yr un testun mewn sawl blwyddyn olynol, maent wedi'u rhestru o dan yr un pennawd, yn nhrefn y dyddiad.

Rwyf i wedi rhoi gradd Coch / Ambr / Gwyrdd i bob argymhelliad, i fesur cynnydd yn erbyn yr hyn alwais i amdano. Fy asesiad fy hun yw lliw'r radd, ar sail ymgysylltiad â'r holl randdeiliaid allweddol. Mae'n bwysig nodi nad yw'r radd yn asesu a yw Llywodraeth Cymru yn cytuno gyda'r argymhelliad neu beidio. Mae lliw'r radd yn adlewyrchu a fu unrhyw newidiadau polisi ac ymarfer sy'n gwella bywydau plant yng Nghymru ac yn rhoi amddiffyniad pellach iddyn nhw fwynhau eu hawliau o dan CCUHP.

| | |
|---|---|
| **Coch** | Dim tystiolaeth o newidiadau polisi nac ymarfer ers cyflwyno'r argymhelliad. Dim gwelliant ym mhrofiadau plant. |
| **Ambr** | Peth tystiolaeth o newid polisi neu ymarfer, ond nid yw'r argymhelliad wedi'i gyflawni'n llawn yn llwyddiannus eto. |
| **Gwyrdd** | Argymhelliad wedi'i roi ar waith a gwahaniaethau nodedig ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gwasanaeth neu gymorth. |

| | Argymhellion | Gradd Coch/Ambr/Gwyrdd ar hyn o bryd | Comments |
|---|---|---|---|
| **Cymorth Mabwysiadu** | **2015/16**<br>Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a threfniadau cydweithio rhanbarthol i sicrhau mwy o ddarpariaeth cymorth mabwysiadu, gan ddarparu adnoddau ychwanegol yn ôl y galw. | Dim newid | Mae camau cadarnhaol yn cael eu cymryd i roi sylw i anghenion cymorth llawer o blant a'u teuluoedd. Cyhoeddodd Adoption UK yr arolwg "Baromedr Mabwysiadu" cyntaf ym mis Gorffennaf 2019 oedd yn archwilio profiadau mabwysiadwyr o ran cymorth, mynediad i wasanaethau a chanlyniadau i bobl ifanc ym mhedair gwlad y Deyrnas Unedig.<br><br>Gyda chymorth £2.3 miliwn o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, ynghyd ag Adoption UK, wedi cyhoeddi eu bod yn datblygu amrywiaeth o wasanaethau cymorth mabwysiadu.<br><br>Bydd teuluoedd yng Nghymru yn gallu cael mynediad i Wasanaethau Cymorth Addysg Therapiwtig i Fabwysiadwyr (TESSA) a bydd plant yn gallu cael mynediad i wasanaethau cymorth penodol ar gyfer plant. Mae'r gwasanaethau cymorth hyn i gael eu hestyn ledled Cymru. Byddwn yn parhau i fonitro'r cymorth datblygu, trwy ein sedd ar Grŵp Cynghori'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol. |
| **Eiriolaeth** | **2015/16**<br>Dylai'r Llywodraeth weithio gydag ADSS a CLlLC i weithredu dull cenedlaethol o ymdrin ag eiriolaeth statudol fel mater o flaenoriaeth, er mwyn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc cymwys ledled | Dim newid | Mae'n bleser gen i nodi bod y Dull Gweithredu Cenedlaethol bellach yn weithredol ar draws yr holl ranbarthau.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi cyhoeddi'r Fframwaith Cenedlaethol Safonau a Chanlyniadau ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru sy'n disgrifio'r hyn y gall pobl ifanc ddisgwyl ei gael gan eu gwasanaeth eiriolaeth annibynnol. Mae'r fframwaith, trwy rôl y grŵp |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cymru yn derbyn 'cynnig gweithredol' o ran eiriolaeth ac yn cael eu cefnogi i fynegi barn ar y gofal a'r cymorth maen nhw'n eu derbyn.<br><br>**2016/17**<br>Rwy'n argymell bod Llywodraeth Cymru yn monitro gweithrediad y Dull Cenedlaethol o Ymdrin ag Eiriolaeth Statudol er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau arfaethedig yn cyrraedd pawb sydd â hawl i'w derbyn, gan gynyddu tebygolrwydd canlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc.<br><br>**2017/18**<br>Rwy'n argymell bod Côd Ymarfer Rhan 10 yn cael ei newid i roi grym statudol i'r Dull Cenedlaethol o ymdrin ag Eiriolaeth Statudol, gan gynnwys yr holl ddogfennau cysylltiedig. | | gorchwyl a gorffen y bu fy swyddfa i'n rhan ohono, yn cydnabod CCUHP yn benodol a'r defnydd ohono mewn eiriolaeth.<br><br>Mae Côd Ymarfer o'r newydd sy'n ymwneud ag eiriolaeth wedi cael ei gyhoeddi bellach, ac mae'n disgrifio'r hawliau eiriolaeth sydd gan bobl ifanc, gan gynnwys y rhai sy'n dod i gysylltiad â gweithdrefnau amddiffyn plant, achosion gofal neu'r rhai sydd ag angen gofal a chymorth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.<br><br>Rydyn ni'n parhau i fonitro cynnig gweithredol wrth iddo gael ei roi ar waith fesul cam trwy ein gwaith achosion Ymchwiliadau a Chyngor a'n rhan yn y Grŵp Darparwyr Eiriolaeth. Rydyn ni'n ymwybodol bod plant mewn cartrefi gofal wedi wynebu heriau o ran cael mynediad i'w hawl statudol i eiriolaeth. Cafodd y mater hwn ei godi yn yr adolygiad thematig o gartrefi plant gan Arolygiaeth Gofal Cymru, ac mae rhagor o waith yn cael ei wneud gan TGP Cymru i nodi mynediad cyson i'r ddarpariaeth.<br><br>Rwy'n ymwybodol bod Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraeth Cymru ar gyfer y Dull Cenedlaethol o ymdrin ag Eiriolaeth Statudol i Blant a Phobl Ifanc yn dod i ben. Wrth symud ymlaen, mae'n rhaid rhoi trefniadau monitro cadarn yn eu lle i sicrhau bod y Cynnig Gweithredol yn dal i gael ei estyn yn ehangach. Rhaid cymryd camau hefyd tuag at ddatblygu Fframwaith Comisiynu Cenedlaethol, yn unol ag argymhelliad Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd i fonitro "yn flynyddol wariant awdurdodau lleol ar wasanaethau eiriolaeth statudol". Byddai hynny o gymorth pellach i sicrhau bod mynediad at eiriolaeth annibynnol, o ansawdd uchel, ar gael i bob plentyn a pherson ifanc bregus, ac yn diogelu gwasanaethau eiriolaeth statudol i blant, wrth i Gymru ddechrau ymadfer wedi COVID-19. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Iechyd Meddwl** | **2015/16**<br>Dylai Rhaglen y GIG, Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc, barhau i dderbyn lefelau digonol o arian i gyflawni ei huchelgais a monitro a yw profiadau plant o ofal iechyd meddwl yn gwella.<br><br>**2016/17**<br>Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod rhaglen T4CYP yn parhau y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol hon, nes ei bod wedi cyflawni ei nodau uchelgeisiol. Cyn i'r rhaglen genedlaethol ddod i ben, mae angen i'w gwelliannau gael eu gwreiddio'n ddigonol ac yn gyson ar lefel leol er mwyn i'r byrddau cynllunio rhanbarthol fedru cynnal cynnydd ac ansawdd y ddarpariaeth i bob plentyn ledled Cymru.<br><br>**2017/18**<br>Rwy'n argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithredu i fynnu bod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) yn sefydlu strwythurau cynllunio amlasiantaeth penodol ar gyfer plant a phobl ifanc, a fydd yn adrodd i'r BPRh. Dylen nhw hefyd fynnu bod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cymryd camau i integreiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol a iechyd meddwl plant i dimau aml-ddisgyblaeth, fel eu bod yn ymateb i anghenion eu poblogaethau lleol o blant a | **Dim newid** | Rwy'n falch bod Rhaglen T4CYP wedi cael ei hymestyn tan o leiaf fis Mawrth 2021. Bydd y Rhaglen yn cael ffocws newydd, gyda 3 ffrwd waith o gymorth cynnar a chefnogaeth estynedig, gan fabwysiadu dull gweithredu system gyfan trwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, a dull gweithredu system gyfan o ran y gwasanaethau niwroddatblygiadol. Rwy'n falch bod y Rhaglen wedi parhau, ond codwyd rhai pryderon bod y strwythur yn fwy ar chwâl bellach a bod ffrydiau gwaith a fyddai wedi bod yn rhan o T4CYP o'r blaen yn atebol i gyrff gwahanol bellach. Bydda i'n gofyn i Lywodraeth Cymru gadarnhau y bydd fframwaith atebolrwydd cadarn yn cael ei sefydlu er mwyn sicrhau bod corff sengl yn goruchwylio iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Mae'r ffaith y bydd y ffrwd waith CAMHS arbenigol yn cael ei harwain gan y rhwydwaith iechyd meddwl pob oed, yn hytrach na T4CYP yn achosi pryder arbennig i mi. Bydda i'n monitro'r sefyllfa hon er mwyn sicrhau na fydd gwahanu CAMHS arbenigol a CAMHS sylfaenol a'r cymorth cynnar a'r gwaith cefnogi estynedig yn golygu y collir golwg ar y nod o symud tuag at ddarpariaeth ddi-dor o ran camu i fyny i CAMHS arbenigol neu gamu i lawr ohono.<br><br>Yn ystod y pandemig hwn, mae fy nhîm a minnau wedi bod mewn cysylltiad yn rheolaidd â'r ddwy uned cleifion mewnol iechyd meddwl i blant a phobl ifanc yng Nghymru, Gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru, a Grŵp Achosion Iechyd Meddwl y GIG, a sefydlwyd mewn ymateb i'r pandemig. Yn ystod y cyfnod hwn, rwyf wedi bod yn pryderu ynghylch capasiti'r unedau i gleifion mewnol, a'r gwelyau 'ymchwydd' a gafwyd trwy ddarparwyr annibynnol. Yn ôl yr hyn rwy'n deall, dim ond ambell waith y defnyddiwyd y gwelyau ymchwydd hyn yn ystod y cyfnod, ond mae'n dangos yn fwy nag erioed nad oes capasiti dros ben yn y system. Er bod y gwasanaethau CAMHS cymunedol ledled Cymru wedi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | phobl ifanc sydd angen cymorth a thriniaeth emosiynol, ymddygiadol.<br><br>2018/19<br>Bod Llywodraeth Cymru yn mynd ati ar frys i sefydlu trefniadau parhau ar gyfer y gwaith pwysig sy'n cael ei gyflawni ar hyn o bryd trwy'r Rhaglen Gyda'n Gilydd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc. | | llwyddo i gynnal gwasanaeth, rwyf hefyd yn pryderu bod darpariaeth iechyd meddwl y rhan fwyaf o bobl ifanc wedi symud o lefel wyneb yn wyneb i alwadau fideo, neu alwadau ffôn yn unig. Fy mhryder i yw na fydd rhai plant a phobl ifanc yn teimlo'r un cysylltiad â'r gweithwyr proffesiynol sy'n eu cefnogi ag oedd ganddyn nhw o'r blaen, ac y gallai hynny effeithio ar eu hymrwymiad i'r trefniant.<br><br>Rwyf hefyd yn awyddus ein bod ni'n dysgu gwersi darparu gwasanaethau iechyd meddwl ar yr adeg hon, gan gynnwys ble gallai ffyrdd gwahanol o ddarparu gwasanaeth, fel galwadau fideo, gael eu ffafrio gan rai pobl ifanc.<br><br>Wrth i ni symud i gyfnod o adferiad, mae'r angen am wasanaeth ymatebol, di-fwlch yn amlycach nag erioed.<br><br>Bydd y rhaglen T4CYP(2) newydd yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o sicrhau bod unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth CAMHS yn sgîl amgylchiadau cysylltiedig â Covid-19 yn cael eu nodi, a bod gwaith yn digwydd i sicrhau mynediad cyfartal at wasanaethau iechyd meddwl ledled Cymru.<br><br>Rwy'n falch o weld bod rhai BPRhau wedi cynnwys gwasanaethau amlasiantaeth i blant a phobl ifanc yn eu cynigion i Gronfa Trawsffurfiant Llywodraeth Cymru, a bod rhai o'r rheiny wedi cael eu cymeradwyo. Rwy'n falch bod Rhan 9 o'r Canllawiau Statudol, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, yn cynnwys diffiniad o blant ag anghenion cymhleth sy'n ehangach na dehongliad rhai BPRhau yn y gorffennol; cydnabod y ddyletswydd sydd ar y BPRhau i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn; estyn dyletswydd adran 12 awdurdodau lleol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | (cyfranogiad plant a phobl ifanc) i'r BPRhau; disgwyl i'r BPRhau sefydlu is-grwpiau amlasiantaeth i drafod anghenion plant a phobl ifanc; a disgwyl i'r BPRhau ystyried datblygu strategaethau comisiynu rhanbarthol a threfniadau cyllido wedi'u cyfuno ar gyfer gofal preswyl i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth.<br><br>Mae ein gwaith i adrodd ar effeithiolrwydd BPRhau wrth integreiddio gwasanaethau i blant ag anghenion cymhleth bellach wedi'i gwblhau a'i gyhoeddi wedi oedi byr oherwydd argyfwng Covid-19. Mae'r adroddiad yn cyflwyno argymhellion i'r BPRhau a Llywodraeth Cymru, yr ydyn ni'n gobeithio fydd yn eu cynorthwyo, fel ei gilydd, i roi'r canllawiau statudol hyn ar waith yn effeithiol. |
| **Iechyd meddwl a llesiant mewn ysgolion** | 2015/16<br>Dylai rhaglen adolygu'r cwricwlwm 'Dyfodol Llwyddiannus', weithio'n agos gyda rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc y GIG er mwyn hybu dulliau gweithredu ysgol gyfan, sy'n seiliedig ar dystiolaeth o ymdrin â pherthnasoedd iach, iechyd meddwl a llesiant. | **Dim newid** | Rwy'n credu bod y gwaith Dull Gweithredu Ysgol Gyfan wedi newid ffurf ers y cychwyn trwy'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyd-weinidogol, ac rwy'n credu bod gwell dealltwriaeth o'r angen i'r dull gweithredu ysgol gyfan gynnwys pob asiantaeth ac actor sy'n ymwneud â bywydau plant yn yr ysgol, gartref, ac yn y gymuned. Yn nodedig, bu arwyddion o gydnabod pwysigrwydd y cwricwlwm newydd, rôl gwaith ieuenctid, a chanllawiau newydd Llywodraeth Cymru ar fwlio.<br><br>Fodd bynnag, rwy'n dal i bryderu am nifer o elfennau o'r fframwaith drafft, gan gynnwys yr angen am sicrhau bod yr arweiniad yn berthnasol i sefydliadau addysg bellach, ac i blant a phobl ifanc sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol; bod angen egluro sut y bydd perfformiad ysgolion o ran yr agenda hon yn cael ei fonitro; cysylltiadau cliriach rhwng y fframwaith ac arweiniad arall i staff ysgolion, gan gynnwys y cwricwlwm newydd; ac a yw'r atebolrwydd am ddarparu'r 'ddewislen' o ymyriadau/raglenni ar gyfer ysgolion yn lleol neu'n rhanbarthol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Yn fy marn i, mae'r gwaith hwn bellach yn symud i'r cyfeiriad cywir, ac rwy'n edrych ymlaen at weld dull gweithredu ysgol gyfan yn cael ei roi ar waith.<br><br>Roedd gwelliannau mawr i'r drafft diweddaraf o'r Fframwaith, ac rwy'n falch bod sylwadau gennyf finnau a rhanddeiliaid eraill wedi cael eu cymryd i ystyriaeth. Fodd bynnag, mae cwestiynau yn dal i'w gofyn ynghylch a fydd y canllawiau hyn yn statudol. Fy marn bendant i yw y dylen nhw fod, a bod rôl y cydlynydd arweiniol mewn ysgolion yn orfodol. Mae'r fframwaith diweddaraf yn trafod atebolrwydd yn gliriach nag o'r blaen, ond mae'n dal yn aneglur ai'r consortia rhanbarthol neu'r BPRhau fydd y corff rhanbarthol mae disgwyl i'r ysgolion fod yn atebol iddo. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru yn datblygu pecyn offer i ysgolion gael mynediad at ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth, ac mae hynny i'w groesawu'n fawr. Bydd y gwaith hwn yn allweddol ar gyfer llwyddiant y dull gweithredu ysgol gyfan, er mwyn sicrhau bod ysgolion yn gallu cael mynediad uniongyrchol at yr ymyriadau cywir ar gyfer eu hamgylchiadau.<br><br>Gan fod y pandemig wedi effeithio ar wasanaethau a chapasiti Llywodraeth Cymru, mae oedi dealladwy wedi bod yng nghyswllt yr ymgynghoriad ar y fframwaith dull gweithredu ysgol gyfan, a oedd i'w gynnal yn y gwanwyn. Wrth i ni ddechrau ystyried sut mae dychwelyd ein plant i leoliadau ysgol, mae'r canllawiau a geir yn y fframwaith yn fwy hanfodol nag erioed. Rwy'n falch o weld bod ymgynghoriad 12 wythnos wedi cychwyn nawr, er na fydd ar gael fel fersiwn yr ymgynghorwyd yn llawn arni pan fydd y dysgwyr yn dychwelyd i'r ysgolion. Yn fy marn i, mae'n rhaid i ryw fath ar ganllawiau fod yn eu lle. Dylai hynny gynnwys cefnogaeth gyffredinol yn yr ysgol, a chynnig cefnogaeth ar ffurf grwpiau, megis grwpiau meithringar ar gyfer y rhai y gallai fod angen rhagor o gymorth arnynt; cyngor a chefnogaeth uniongyrchol i ysgolion gan |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | wasanaethau seicoleg; cysylltiad â'r trydydd sector; a chefnogaeth ar gyfer profedigaeth. |
| **Trafnidiaeth** | **2015/16**<br>Dylai Llywodraeth Cymru adolygu Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 a'r ddarpariaeth statudol a'r canllawiau gweithredol cysylltiedig, er mwyn sicrhau bod pob taith i'r ysgol ac oddi yno yn ddiogel, a bod awdurdodau lleol yn gwbl glir ynghylch eu cyfrifoldebau i sicrhau bod hyn yn digwydd.<br><br>**2018/19**<br>Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn berthnasol i bobl ifanc hyd at 25 oed. Rhaid i'r Llywodraeth sicrhau dyletswydd statudol i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc sy'n cael eu cwmpasu gan y Ddeddf yn derbyn cludiant diogel i'w lleoliad addysg.<br>O ganlyniad, dylai Llywodraeth Cymru ailystyried eu hymateb i'm hargymhelliad yn fy adroddiad blynyddol ar gyfer 15/16 i adolygu'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 a'r ddarpariaeth statudol a'r canllawiau cysylltiedig. | **WEDI NEWID O'R COCH I AMBR** | Gwrthododd Llywodraeth Cymru'r fy ngalwadau yn fy adroddiad 2018-2019, ond dwedon nhw byddent yn cynnal adolygiad ar drafnidiaeth i ddysgwyr ôl-16.<br><br>Roeddwn yn pryderu na fydd maes yr adolygiad yn ddigonol i ddiwallu anghenion pobl ifanc i deithio'n ddiogel i'w man addysgu.<br><br>Rwy'n falch felly bod Llywodraeth Cymru bellach wedi cyhoeddi maes estynedig ar gyfer yr adolygiad hwn ac y byddant yn gweithio'n agos gyda fy swyddfa a Chomisiynydd y Gymraeg ar hyn, a bydd y gwaith yn cwblhau erbyn Mawrth 2021.<br><br>Edrychaf ymlaen at weld mwy o fanylion a chychwyniad y gwaith hwn. Bydd fy nhîm yn ymgysylltu'n agos â'r gwaith hyn. |
| **Anghenion Dysgu Ychwanegol** | **2015/16**<br>Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth newydd a Chôd Ymarfer | **Dim newid** | Cafodd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys (Cymru) 2018 ei phasio gyda sylw dyledus i CCUHP a CCUHPA ar wyneb y Bil. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cadarn sy'n cyflawni'r ymrwymiad i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.<br><br>**2016/17**<br>Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno dyletswydd ar bob corff perthnasol o dan y Ddeddf i roi sylw dyledus i CCUHP a CCUHPA, ac i roi'r ddyletswydd honno ar wyneb y Bil. | | Yng ngwanwyn 2019, bu'r Côd Ymarfer drafft a'r Rheoliadau'n destun ymgynghoriad. Ym mis Medi 2019, cyhoeddodd y Llywodraeth y byddai'n oedi cyn rhoi'r Ddeddf ar waith. Rwy'n parhau i ymgysylltu â'r Llywodraeth i bwysleisio sut y gall y Côd newydd ymgorffori hawliau plant yn llwyr ar draws eu profiad addysgol.<br><br>Yn ogystal, rwy'n croesawu cynlluniau'r Llywodraeth i roi rhywfaint o hwb ariannol i'r system gyfredol y flwyddyn nesaf. Mae'r buddsoddiad hwn yn hanfodol bwysig er mwyn i blant a phobl ifanc allu cael cymorth ar unwaith a bydd yn gymorth hefyd i gynyddu capasiti ar draws Cymru cyn i'r gyfraith newydd gael ei rhoi ar waith. Rwy'n gobeithio na fydd y buddsoddiad ychwanegol hwn yn ddigwyddiad unwaith yn unig, ac y bydd yn parhau wrth i'r system newydd ddatblygu. |
| **Anghenion Dysgu Ychwanegol** | **2015/16**<br>Dylai Llywodraeth Cymru gryfhau'r cydlyniant, y ddarpariaeth a'r gefnogaeth sy'n cael eu darparu i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys cyflwyno dyletswyddau statudol i Fyrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau GIG i ddarparu cymorth ac i gryfhau pwerau Tribiwnlys Addysg Cymru.<br><br>**2016/17**<br>Dylai Llywodraeth Cymru hefyd gryfhau pwerau Tribiwnlys Addysg Cymru trwy estyn ei gylch gorchwyl i gwmpasu cyrff iechyd. | **No change** | Bellach bydd gan y Tribiwnlys Addysg bwerau dros gyrff iechyd o dan y Ddeddf, gan gynnwys y gallu i wneud cais am dystiolaeth ac adroddiadau ar gyfer apeliadau. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Tlodi Plant** | **2015/16**<br>Dylai Llywodraeth Cymru roi arweiniad clir a chadarn i ddileu tlodi plant, trwy ymgysylltu'n gadarnhaol ac yn gydweithredol â Llywodraeth y Deyrnas Unedig, a chyrff cyhoeddus a phreifat ar draws pob sector, gan gynnwys cyflogwyr.<br><br>Er mwyn mynd i'r afael â thlodi plant, dylai Llywodraeth Cymru sefydlu a monitro cynllun cyflawni penodol ar gyfer tlodi plant, gyda thargedau a cherrig milltir clir, er mwyn gyrru gweithrediad strategaeth genedlaethol a fydd yn sicrhau nad yw unrhyw blentyn o dan anfantais o ran gwireddu ei hawliau o dan CCUHP.<br><br>**2016/2017**<br>Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio pob dull sydd ar gael iddynt i liniaru tlodi plant, gan gynnwys defnyddio pwerau newydd i godi trethi. Dylai gefnogi awdurdodau lleol i gynnig cymorth pellach mewn meysydd penodol y gwyddys eu bod yn rhoi pwysau ar y teuluoedd tlotaf, gan gynnwys eisiau bwyd yn ystod y gwyliau, costau gwisg ysgol a biliau tanwydd uchel yn y cartref.<br><br>**2018/19**<br>Mae angen i Lywodraeth Cymru gymryd i ystyriaeth argymellion yr adroddiad Siarter ar gyfer Newid, a chyhoeddi cynllun cyflawni yn | **No change** | Mae'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, sydd â chyfrifoldeb am gydlynu mesurau i liniaru tlodi plant, wedi darparu ymateb ffurfiol i'r argymhellion yn fy adroddiad Siarter ar gyfer Newid.<br><br>IRwy'n cydnabod bod cyllid wedi cael ei ddarparu i wella ac estyn mynediad i'r Grant Datblygiad Disgyblion (PDG) a bod cynnyrch hylendid am ddim wedi cael eu cyflwyno mewn ysgolion a Sefydliadau Addysg Bellach. Nodaf fod cyllideb Llywodraeth Cymru wedi neilltuo arian ychwanegol ar gyfer y rhaglenni hyn. Ar ben hynny, roedd y gyllideb derfynol yn darparu arian ychwanegol ar gyfer cynllun brecwast newydd peilot mewn ysgolion uwchradd yn 2020/2021.<br><br>Fodd bynnag, mae argyfwng Covid-19 wedi golygu bod cyllid wedi ailddyrannu er mwyn diwallu anghenion sy'n codi o'r pandemig. O ganlyniad i hyn, mae'r cynlluniau arbrofol hyn wedi oedi. Rwy'n siomedig i weld nad oes sôn am gyfle i ehangu'r cymhwysedd i dderbyn prydau ysgol am ddim.<br><br>Mae'n galonogol bod y Llywodraeth yn symud ymlaen ag adolygiad o raglenni ariannu gan ganolbwyntio ar dlodi plant ac rwyf wedi cael fy sicrhau y bydd fy argymhellion yn cael eu cymryd i ystyriaeth yno ac yn adolygiad cyllid ehangach y Prif Weinidog. Rwyf wedi cyfrannu tystiolaeth at yr adolygiad. Roedd argymhellion y gwaith hwn i gael eu trafod gan Weinidogion ym mis Mawrth 2020, ond bu oedi oherwydd Covid-19. Mae angen cyhoeddi'r argymhellion cyn gynted â phosibl i sicrhau bod modd i'r gwaith hwn fynd rhagddo yn ystod y cyfnod sy'n weddill o dymor y Senedd. Byddwn i'n dal i hoffi gweld y gwaith hwn yn cael ei amlinellu a'i yrru gan gynllun cyflawni ar gyfer tlodi plant. Dylai hefyd gymryd i ystyriaeth y gefnogaeth y bydd ei hangen ar y grŵp yma o blant a phobl ifanc wedi argyfwng y Coronafeirws, a dysgu o'r rhaglenni a addaswyd a/neu a ddatblygwyd yn ystod y cyfnod hwn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | nodi'n fanwl sut bydd adrannau ar draws y Llywodraeth yn cymryd camau ymarferol i liniaru effaith tlodi plant a mynd i'r afael ag ef. | | Covid 19<br>Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd cam cadarnhaol mewn ymateb i'r pandemig, sef darparu adnoddau i sicrhau prydau ysgol am ddim i blant cymwys, yn arbennig yn ystod gwyliau'r haf. Mae peth cyllid wedi cael ei ddarparu hefyd ar gyfer cysylltedd a dyfeisiau priodol â chysylltiad â'r rhyngrwyd i ddysgwyr, yn ogystal ag arian ychwanegol ar gyfer y Gronfa Cymorth Disgresiynol, y gall teuluoedd gyflwyno cais iddi ar adeg o argyfwng. Rwyf wedi ymgysylltu â Gweinidogion a swyddogion ar yr adeg hon i bwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod y cynlluniau hyn yn cyrraedd y plant maen nhw wedi'u bwriadu ar eu cyfer, a monitro'r ddarpariaeth trwy awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill i sicrhau bod hynny'n digwydd. Rwyf hefyd wedi codi pryderon gyda'r Llywodraeth yn ystod y cyfnod hwn ynghylch arfer anghyson awdurdodau lleol o gau mannau gwyrdd, gan fod llawer o deuluoedd yn debygol o fod yn byw mewn cartrefi sy'n darparu fawr ddim lle yn yr awyr agored, os o gwbl. |
| **Y Cwricwlwm a CCUHP** | **2015/16**<br>Dylai addysg hawliau dynol, gan gynnwys gwybodaeth am hawliau plant, fod â sylfaen gadarn yn nhrefniadau newydd y 'Cwricwlwm i Gymru – Cwricwlwm am oes'.<br><br>**2016/17**<br>Dylai Llywodraeth Cymru wneud addysg hawliau dynol plant yn elfen orfodol o'r cwricwlwm. Dylai rhaglen Diwygio'r Cwricwlwm wreiddio dysgu am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ar draws pob rhan o'r cwricwlwm newydd. Dylai hynny gynnwys cysylltu'r Fframwaith Galluedd Digidol â hawliau plant, a chefnogi plant a phobl ifanc i ddeall bod ganddyn | **Changed from Amber** | Rwyf wedi fy siomi'n fawr bod y Llywodraeth wedi gwrthod fy ngalwad am ddyletswydd sylw dyledus i CCUHP ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu. Wrth wneud hynny, honnodd y Llywodraeth, yn anghywir, nad oedd dyletswydd o'r fath yn angenrheidiol oherwydd Mesur Hawliau Plant (Cymru) 2011.<br><br>Nid yw'r honiad yn ddilys: mae'r cwricwlwm newydd yn cynnig model sybsidiaredd lle caiff penderfyniadau am gynllun y cwricwlwm a phrosesau asesu eu gwneud ar lefel yr ysgol. Nid yw'r Mesur yn sicrhau bod sefydliadau ysgol unigol yn ystyried hawliau plant yn eu cynlluniau cwricwlwm ac asesu ar hyn o bryd ac mae'n sicr na fydd yn gwneud hynny yn y dyfodol pan fydd sefydliadau'n cael mwy o ymreolaeth.<br><br>Diolch yn bennaf i ymroddiad gweithwyr proffesiynol unigol, mae rhai ysgolion yng Nghymru wedi arwain gwaith ardderchog o ran ymgorffori hawliau dynol plant wrth wneud penderfyniadau. Fodd bynnag, nid yw |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | nhw'r un hawliau ag sydd ganddynt oddi ar-lein.<br><br>**2017/18**<br>Rwy'n argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod anghenion a lles hirdymor plant yn cael eu diogelu trwy sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn amlwg wedi'i sylfaenu ar Ddull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant, a bod y deilliannau dysgu yn cefnogi pob plentyn i wybod beth yw eu hawliau o dan CCUHP.<br><br>**2018/19**<br>Er mwyn sicrhau ymrwymiad parhaus i hawliau dynol plant dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno dyletswydd ar bob corff perthnasol i roi sylw dyledus i CCUHP wrth gyflwyno'r cwricwlwm. Dylai'r ddyletswydd hon gael ei rhoi ar wyneb y Bil Cwricwlwm ac Asesu. | | hynny'n rhan o brofiad pob plentyn. Gwelir hynny mewn enghreifftiau o ddileu plant o gofrestrau a'u hynysu, camwahaniaethu a diffyg cyfleoedd i gyfranogi. Ni ddylai hawliau dynol plant fod yn fater o hap a damwain fel hyn.<br><br>Er bod CCUHP a dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant wedi cael eu cynnwys yng nghanllawiau'r cwricwlwm drafft, gall y rhain newid, a heb ddeddfwriaeth sy'n cynnwys hawliau plant, ni fydd modd sicrhau bod profiadau plant a phobl ifanc o'r cwricwlwm newydd yn cael eu llywio gan eu hawliau dynol.<br><br>Mae'r Llywodraeth yn honni bod hawliau plant ar flaen ei huchelgais ar gyfer y cwricwlwm newydd i Gymru. Os yw hynny'n wir, ni welaf fod gan y Llywodraeth reswm i beidio â derbyn y cyfle hwn i ymgorffori hynny mewn cyfraith a bydda i'n dal i bwyso am gymryd y cam diogelu pwysig hwn ar gyfer hawliau dynol plant trwy broses ymchwiliad Cyfnod 1 y Bil. |
| **Cyfranogiad pobl ifanc wrth ddiwygio'r cwricwlwm** | **2015/16**<br>Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod trefniadau ar waith i gefnogi cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn prosesau gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â diwygio addysg. | **No change** | Ymatebodd Llywodraeth Cymru i alwadau gennyf i a chan eraill i sicrhau bod cyfleoedd ystyrlon i bobl ifanc gyfranogi, er iddi wneud hynny'n hwyr yn y cyfnod ymgynghori.<br><br>Roeddwn yn arbennig o falch o weld bod y Llywodraeth wedi sicrhau bod plant a phobl ifanc â nodweddion a amddiffynnir yn rhan o'r ymgynghoriad hwn a bod cyfle i bobl ifanc gyfranogi mewn ffyrdd gwahanol, gan gynnwys trwy arolwg a gweithdai wyneb yn wyneb. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **2017/18**<br>Rwy'n argymell bod canlyniadau cyflawni'r cwricwlwm newydd yn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn dysgu am eu hawliau, a bod dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant yn sylfaen ar gyfer egwyddorion tywys cyflwyno'r cwricwlwm. Dylai cyfranogiad plant a phobl ifanc gael ei gynnwys yn systematig yng ngham nesaf datblygu'r cwricwlwm. | | Roeddwn i'n falch hefyd bod y bobl ifanc wedi cael ateb ystod o gwestiynau eang a phenodol.<br><br>Mae'n bwysig bod y Llywodraeth yn sicrhau y gall plant a phobl ifanc barhau i gyfranogi o ran cynllunio'u cwricwlwm. Rwy'n falch o groesawu'r adran benodol ar gynnwys dysgwyr wrth lunio'r cwricwlwm yn y trosolwg i'r cwricwlwm yn y dogfennau a gyhoeddwyd ar Hwb ar ddechrau 2020. Rwyf hefyd yn croesawu'r wybodaeth ategol am addysg hawliau dynol a CCUHP yn y dogfennau hyn. |
| **Dewis Addysgu Gartref** | **2015/16**<br>Dylai'r Llywodraeth gryfhau'r gofynion bod rhieni'n cofrestru fel rhai sy'n dewis addysgu eu plant gartref, a bod pob plentyn y dewiswyd eu haddysgu gartref yn cael eu gweld gan weithiwr proffesiynol o leiaf unwaith y flwyddyn, er mwyn medru rhoi barn ar eu profiadau addysgol.<br><br>**2016/17**<br>Rwy'n dal o'r farn bod angen i Lywodraeth Cymru newid y canllawiau cyfredol fel bod ganddyn nhw rym statudol, a chynnwys cofrestr orfodol ar gyfer pob plentyn sy'n cael eu haddysgu gartref, er mwyn sicrhau nad ydynt yn syrthio "oddi ar radar" hyd yn oed y gwasanaethau cyffredinol. Wrth ddiwygio'r canllawiau, mae hefyd yn bwysig bod pwerau clir yn cael eu cynnwys i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn gweld | **Wedi newid o ambr** | Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymateb i'm hadroddiad blynyddol 2017-18 ar 30ain Tachwedd, gan dderbyn fy nhri phrawf ar gyfer y polisi hwn.<br><br>Yn hydref 2019 bu Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar ganllawiau statudol a llawlyfr ar gyfer y rhai sy'n addysgu gartref. Fe wnes innau ymateb yn gynhwysfawr i'r ymgynghoriad hwn, gan amlygu cryfderau'r canllawiau yn ogystal â meysydd lle gellid eu cryfhau er mwyn bodloni fy nhri phrawf.<br><br>Wedi hynny, ym mis Ionawr 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar reoliadau drafft ar gyfer cronfeydd data awdurdodau lleol, oedd yn cynnwys dyletswyddau newydd i fyrddau iechyd ac ysgolion annibynnol rannu gwybodaeth, fel bod modd i awdurdodau lleol adnabod yr holl blant a phobl ifanc oed ysgol yn eu hardal.<br><br>Eto, fe wnes i ymateb yn llawn i'r ymgynghoriad hwn a gwneud sawl awgrym ynghylch sut gallai'r cynigion gael eu cryfhau er mwyn sicrhau nad oes unrhyw blant yn llithro o dan radar y gwasanaethau cyffredinol.<br><br>Rwyf wedi fy siomi'n ddirfawr gan gyhoeddiad y Llywodraeth ar 22 Mehefin 2020 na fyddent bellach yn symud ymlaen gyda'r gwaith a |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | plant ac yn siarad â nhw'n uniongyrchol am eu haddysg eu hunain.<br><br>**2017/18**<br>Rwy'n argymell bod Llywodraeth Cymru yn symud y polisi a ddiweddarwyd ymlaen i ymgynghori arno eleni, gyda'r nod o fodloni'r tri phrawf canlynol yn llwyr:<br>• Yn gyntaf, bod modd rhoi cyfrif am bob plentyn yng Nghymru, heb i neb ohonynt lithro o dan radar y gwasanaethau cyffredinol, a'r gymdeithas yn gyffredinol.<br>• Yn ail, bod pob plentyn yn derbyn addysg briodol a'u hawliau dynol eraill, gan gynnwys iechyd, gofal a diogelwch.<br>• Ni ellir cyflawni hyn heb y trydydd nod, sef bod pob plentyn yn cael cyfle i gael eu gweld, a bod eu barn, gan gynnwys eu barn am eu haddysg a'u profiadau yn cael gwrandawiad.<br><br>**2018/19**<br>Rhaid i Lywodraeth Cymru roi canllawiau statudol ar waith sy'n cyflawni fy nhri phrawf yn llawn yn 2020, er mwyn sicrhau bod hawliau plant yn cael eu parchu ble bynnag maen nhw'n cael eu haddysg. | | gynlluniwyd ar y Canllawiau Statudol na'r Rheoliadau Cronfa Ddata yn y tymor hwn. Mae hyn er gwaethaf y gwaith aruthrol oedd eisoes wedi'i wneud yn y maes hwn, ac amseru ymgyngoriadau 2019/20 fel bod modd rhoi'r newidiadau statudol ar waith ym mis Mai 2020.<br><br>Mae'n hen bryd cael newidiadau statudol hefyd: mae ymateb y Llywodraeth i farwolaeth drasig Dylan Seabridge yn annigonol os na chyflwynir mesurau newydd sydd â grym statudol. Mae'r farn hon yn cael ei rhannu gan yr adroddiad a gomisiynwyd gan y Bwrdd Diogelu Cenedlaethol Annibynnol yn 2017 a'i hamlygu yn adroddiad yr Adolygiad Ymarfer Plant ar gyfer Dylan Seabridge.<br><br>Rwyf wedi derbyn gohebiaeth yn ddiweddar gan y Gweinidog Addysg ynghylch y penderfyniad i beidio â symud ymlaen gyda'r gwaith hwn oherwydd pwysau Covid 19. Er fy mod yn cydnabod bod is-adran addysg Llywodraeth Cymru wedi bod o dan bwysau aruthrol yn ystod y pandemig, rwy'n teimlo y dylai'r gwaith hwn gael ei ystyried yn flaenoriaeth ar draws y llywodraeth. Rwy'n cadw'r opsiwn i ddefnyddio fy mhwerau adolygu ffurfiol i sicrhau bod hawliau plant yn cael eu diogelu a'u cynnal lle bynnag mae plentyn yn cael addysg, ac rwy'n ystyried y sefyllfa yma'n ofalus iawn ar hyn o bryd cyn ymateb ymhellach i'r Llywodraeth. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Equal protection** | **2015/16**<br>Dylid cyflwyno bil i'r Cynulliad cyn gynted â phosibl i ddileu amddiffyniad 'cosb resymol'.<br><br>**2016/17**<br>Ni wnaed argymhelliad newydd ynghylch y pwnc hwn eleni; ond roedd yn rhan bwysig o'n polisi craidd a'n gwaith dylanwadu yn ystod y flwyddyn.<br><br>**2017/18**<br>Rwy'n argymell y dylid cyflwyno Bil cyn gynted â phosibl i sicrhau bod ymrwymiad y Llywodraeth yn cael ei gyflawni. | Dim newid | Rwy'n falch iawn bod Llywodraeth Cymru bellach wedi pasio'r Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020. Bydd y newid i'r gyfraith yn cynnig eglurder i weithwyr proffesiynol a rhieni ac yn rhoi neges glir nad yw defnyddio cosb gorfforol yn dderbyniol yng Nghymru. Bu Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn galw am y newid hwn ers blynyddoedd lawer ac mae'n golygu bod Cymru'n cyd-fynd â mwy na 50 o wledydd eraill ar draws y byd, gan gynnwys Gweriniaeth Iwerddon a'r Alban, trwy roi'r newid hwn ar waith.<br><br>Byddaf yn parhau i weithio gyda'r Llywodraeth trwy'r cyfnod gweithredu i sicrhau bod gwybodaeth a chefnogaeth glir ar gael i bawb sydd â chysylltiad â'r newid hwn. |
| **Senedd Ieuenctid** | **2015/16**<br>Er nad oes dyletswydd ddeddfwriaethol arnaf fi i gyflwyno argymhellion i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, rwyf am ategu fy mwriad i bwyso am ailsefydlu gofod democrataidd cenedlaethol i bobl ifanc, ar ffurf cynulliad ieuenctid. Rwy'n gwbl ymroddedig i weithio gyda phobl ifanc a'r Cynulliad Cenedlaethol i wireddu'r uchelgais hon. | Dim newid | Bu'r Senedd Ieuenctid yn eistedd am y tro cyntaf ym mis Chwefror 2019 ac mae'i chylch blynyddol o gyfarfodydd wedi dechrau. Mae hwn yn ddatblygiad eithriadol o gadarnhaol i sicrhau cyfranogiad a chynrychiolaeth pobl ifanc ar lefel genedlaethol.<br><br>Mae fy nhîm yn dal i ymgysylltu â thîm y Cynulliad sy'n cefnogi'r gwaith hwn, er mwyn archwilio'r ffyrdd gorau i'r Senedd Ieuenctid graffu ar fy ngwaith, ac er mwyn i ni fedru alinio'n blaenoriaethau lle bo modd i sicrhau'r craffu mwyaf ar waith y Llywodraeth.<br>Ym mis Hydref 2019, cefais fy sesiwn drafod gyntaf gyda'r Senedd Ieuenctid, gan ganolbwyntio ar fater iechyd meddwl. Rwy'n gobeithio y bydd yr aelodau'n parhau i graffu ar fy ngwaith a'i lywio fel hyn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Pobl ifanc sy'n gadael gofal**<br><br>**Adroddiad "Breuddwydi on Cudd"** | **2016/17**<br>Dylai Llywodraeth Cymru gyflawni eu holl ymrwymiadau a nodwyd yn adroddiad Breuddwydion Cudd, gan gynnwys cefnogaeth gyfartal i bawb sy'n gadael gofal, p'un a ydyn nhw wedi dod o ofal maeth neu ofal preswyl, cyllid ar gyfer ymgynghorwyr personol i gefnogi pawb hyd at 25 oed sy'n gadael gofal, cyhoeddi gwybodaeth glir i ymadawyr gofal ar faterion ariannol a gwarantu cefnogaeth ariannol i ymadawyr gofal sy'n mynd i addysg uwch. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn weithredol ar eu cynnydd yn erbyn yr ymrwymiadau hyn i awdurdodau lleol, a hefyd yn uniongyrchol i blant a phobl ifanc eu hunain.<br><br>**2017/18**<br>Rwy'n argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag ymadawyr gofal ac awdurdodau lleol i gynhyrchu gwybodaeth ariannol glir sydd ar gael yn genedlaethol, i helpu pobl ifanc a'u hymgynghorwyr personol i gael mynediad i'r amrywiaeth o grantiau, budd-daliadau a phethau y gallant eu hawlio wrth adael gofal.<br><br>**2018/19**<br>Dylai Llywodraeth Cymru newid y ddeddfwriaeth a'r canllawiau ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 er mwyn sicrhau hawl pawb | **No change** | These recommendations have been achieved, in part.<br><br>Rwy'n croesawu buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn cefnogaeth i ymadawyr gofal, mewn ymateb i'm hadroddiad Breuddwydion Cudd. Yn arbennig, mae creu cronfa Gŵyl Ddewi a dyrannu cyllid ychwanegol i Awdurdodau Lleol i ddarparu ymgynghorwyr personol i bob person ifanc cymwys hyd at 25 oed yn fanteision cadarnhaol sydd eisoes yn cael eu mwynhau gan bobl ifanc sy'n gadael gofal. Rydyn ni'n croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i roi sail statudol i gymorth ymgynghorwyr personol. Fodd bynnag, rydyn ni'n ymwybodol y bydd diffyg newid statudol i rwymo'r estyniad hwn yn y gyfraith yn golygu nad oes gwarant ynghylch mynediad parhaus i'r gefnogaeth hon yn y dyfodol.<br><br>Ym mis Ionawr 2020, fe wnaeth fy nhîm gwrdd â'r Fforwm Ymadawyr Gofal i gynnal dadansoddiad dilynol o weithredu argymhellion Breuddwydion Cudd, er enghraifft mynediad at gyngor ariannol, cefnogaeth addysg a chyflogaeth a llwybrau at dai diogel a phriodol. Mae llawer o awdurdodau lleol wedi datblygu cynllun cymorth arloesol i helpu pobl ifanc i ffynnu ar ôl gofal, ond mae mynediad at dai addas, cynlluniau cyflogaeth a gwybodaeth ariannol glir yn amrywio mewn gwahanol ardaloedd.<br><br>Mae fy nhîm wedi rhannu'r wybodaeth yma gyda Llywodraeth Cymru er mwyn llywio gwaith y Grŵp Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y cyd, sy'n ceisio symud ymlaen gyda'r gwaith o estyn cymorth cyfatebol i bobl ifanc sy'n gadael gofal ond sydd heb fod mewn lleoliad "Pan fydda i'n Barod". Bydd y grŵp hefyd yn ystyried datblygu set o "safonau cefnogaeth" y gall pob person ifanc sy'n gadael gofal eu disgwyl, i helpu i sicrhau cysondeb o ran yr hyn y gall pobl ifanc gael mynediad iddo. Fodd bynnag, mae gwaith y grŵp hwn wedi cael ei atal dros dro oherwydd pandemig COVID-19. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | sy'n gadael gofal i gael Ymgynghorydd Personol nes eu bod yn 25 oed.<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru wneud cynnydd mwy pendant yng nghyswllt estyn hawliau'r cynllun 'Pan fydda i'n Barod', i ddarparu lefel gyfatebol o gefnogaeth ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal preswyl. Dylid sicrhau hyn ar sail statudol. | | Er bod y bwriadau hyn wedi'u croesawu, nid ydym wedi gweld newid eang o ran gwella'r ddarpariaeth i bobl ifanc. Yn rhy aml mae ymadawyr gofal yn cael eu lleoli mewn llety amhriodol neu dymor byr ar ôl gofal, gyda mynediad anghyson at gefnogaeth.<br><br>COVID-19:<br><br>Rwy'n ymwybodol bod argyfwng COVID-19 yn cael effaith niweidiol ar Ymadawyr Gofal, sydd ymhlith y bobl ifanc fwyaf agored i niwed. Bydd llawer ohonynt yn byw'n annibynnol, a gallen nhw fod yn profi anawsterau ariannol ac ynysu cymdeithasol. Rwyf wedi clywed am enghreifftiau cadarnhaol o ALlau a phobl ifanc yn addasu'n dda i fathau newydd o gefnogaeth rithwir, yn ogystal â sefydliadau fel Lleisiau o Ofal yn cynnig lefel uwch o gefnogaeth i bobl ifanc yn ystod y cyfnod yma. Rwy'n cadw mewn cysylltiad yn rheolaidd â Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a Lleisiau o Ofal Cymru i fonitro'r sefyllfa hon. Rydyn ni wedi cyflwyno canllawiau ar gyfer ymadawyr gofal ar wefan ein Hwb Gwybodaeth. www.complantcymru.org.uk/coronafeirws<br><br>Rwyf wedi croesawu penderfyniad Llywodraeth Cymru i ddiweddaru canllawiau Cronfa Dydd Gŵyl Dewi yn sgîl argyfwng y Coronafeirws. Bellach mae modd defnyddio'r Gronfa i dalu am hanfodion i ymadawyr gofal a'u cefnogi gydag unrhyw gostau tai neu golli cyflogaeth posibl. |
| **Pobl ifanc sy'n gadael gofal**<br><br>**Treth Cyngor** | **2016/17**<br>Dylai Llywodraeth Cymru symud ymlaen gyda'u gwaith i eithrio pobl ifanc sy'n gadael gofal rhag talu treth y cyngor hyd at 21 oed er mwyn helpu i liniaru tlodi ymhlith ymadawyr gofal. | Dim newid | Rwy'n croesawu'n fawr y rheoliadau a bennwyd i gyflwyno eithriad llawn o dreth y cyngor i ymadawyr gofal hyd at 25 oed, yn dilyn yr ymgynghoriad diweddar. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Mabwysiadu a chyswllt â brodyr a chwiorydd** | **2016/17**<br>Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol (NAS) i sicrhau bod hawliau brodyr a chwiorydd i gadw mewn cysylltiad yn cael eu hystyried yn llawn wrth gynllunio gofal mabwysiadu. | **Dim newid** | Rwy'n falch bod y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol (NAS) ac eraill wedi cyhoeddi canllawiau ar gyswllt siblingiaid sy'n cyfeirio'n amlwg at hawliau plant.<br><br>Datgelodd arolwg y Baromedr Mabwysiadu fod gan 60% o fabwysiadwyr diweddar yng Nghymru gytundebau cyswllt anuniongyrchol gyda siblingiaid sy'n byw yn rhywle arall. Fodd bynnag, nid yw'n glir a oes trefniadau ar waith ar gyfer yr holl blant mabwysiedig a phlant a all fod mewn gofal ac sydd â siblingiaid sydd wedi'u mabwysiadu.<br><br>Mae plant a phobl ifanc yn codi'r mater hwn gyda fi yn rheolaidd pan fydda i'n cyfarfod â nhw. Mae gwella trefniadau cyswllt rhwng siblingiaid yn flaenoriaeth allweddol i Leisiau o Ofal Cymru. Rwyf hefyd wedi cael fy nghalonogi gan waith y Cynghrair Siblingiaid, sy'n edrych yn fanylach ar y mater hwn. Mae'n bosibl bod llawer o blant heb weld unrhyw newid o ran polisi neu ymarfer eto, a dyna pam mae hyn yn dal wedi ei raddio'n Ambr. |
| **Gofal Preswyl** | **2016/17**<br>Dylai Llywodraeth Cymru gyflawni yn erbyn cynllun gwaith eu Grŵp Gorchwyl a Gorffen, a sefydlwyd mewn ymateb i'm hargymhellion yn adroddiad Y Gofal Cywir. | **Dim newid** | Roedd yr argymhelliad hwn wedi cael ei raddio'n Wyrdd yn flaenorol oherwydd bod gwaith Llywodraeth Cymru yn cadw at y targed. Fodd bynnag, rwyf wedi bod yn pryderu fwyfwy ynghylch y diffyg cynnydd a newid amlwg i blant a phobl ifanc.<br><br>Cyhoeddodd y Grŵp ei gynllun gweithredu ar gyfer 2019-2020, sydd wedi arwain at greu nifer o grwpiau penodol i hyrwyddo elfennau o'r cynllun gwaith, fel ymestyn egwyddorion "Pan fydda i'n barod", Llety Diogel, ailbenodi'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Rianta Corfforaethol a darparu lleoliadau Remand a lleoliadau o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol (PACE) ac mae cynrychiolwyr o'm tîm polisi yn mynd i'r cyfarfodydd hyn i gyd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Er bod nifer o gyhoeddiadau ymchwil cadarnhaol yn codi o waith y Grŵp, gan helpu i lywio'r maes gwaith cymhleth hwn, mae yna bryder nad oes fawr ddim wedi'i wneud i wella darpariaeth a pholisïau ar gyfer y grŵp penodol o bobl ifanc sy'n dal heb fynediad cyfatebol i gynlluniau cymorth parhaus fel "Pan fydda i'n barod".<br><br>Rwy'n dal i bryderu am droseddoli plant mewn gofal yn ddiangen, a'r rhai sy'n mynd "ar goll" o ofal. Rydyn ni wedi bod yn gweithio gydag NYAS Cymru fel rhan o'u gweithgor ymgyrch "Missing the Point" i gynyddu ymwybyddiaeth o'r mater hwn a galw am weithredu protocol Cymru gyfan er mwyn lleihau'r troseddoli diangen ar blant sydd â phrofiad o ofal, fel sydd ar waith yn Lloegr. |
| **Iaith Arwyddion Prydain** | **2016/17**<br>Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol sicrhau cymorth priodol gan y wladwriaeth ar gyfer anghenion cyfathrebu plant a phobl ifanc byddar a rhai â nam ar eu clyw a'u teuluoedd, gan gynnwys cyfleoedd i ddysgu Iaith Arwyddion Prydain sy'n hygyrch ac yn fforddiadwy ar amrywiaeth o lefelau, a chyflogi staff mewn ysgolion sy'n cyfathrebu'n rhugl yn Iaith Arwyddion Prydain, er mwyn ymateb i anghenion unigolion. | **Wedi newid o Goch i Ambr** | Rwyf wedi newid y cynnydd yn y maes hwn yn ochelgar i Ambr ar y sail bod peth o'r gwaith yn y maes hwn wedi cymryd cam ymlaen. Mae hynny'n cynnwys sefydlu grŵp rhanddeiliaid arbenigol a fydd yn datblygu'r canllawiau i ysgolion a'r cwricwlwm mewn perthynas â Iaith Arwyddion Prydain (BSL), ac yn cychwyn gwaith ar siartr BSL. Fodd bynnag, mae hwn yn dal yn fater pwysfawr, yn arbennig yng nghyswllt argaeledd cyfleoedd dysgu BSL fforddiadwy i deuluoedd. Byddwn i'n disgwyl gweld momentwm yn y maes hwn, yn arbennig nawr bod yr Adolygiad Annibynnol o'r Ddarpariaeth BSL i Oedolion yng Nghymru wedi cael ei gyhoeddi.  Fel rhan o'r gwaith hwn byddai cynllun gweithredu clir, wedi'i gostio, oedd yn cynnwys gwaith ynghylch cynllunio gweithlu ysgolion, yn rhoi cyfeiriad llywio clir a thryloywder ynghylch pryd gall plant, pobl ifanc a'u teuluoedd ddisgwyl profi newid. Byddaf yn monitro cynnydd yn y maes hwn yn ystod y flwyddyn nesaf, a bydd hynny'n cynnwys ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid.<br><br>Nid yw sesiwn ymgysylltu wyneb yn wyneb oedd i fod i gael ei chynnal yn ystod y cyfnod hwn wedi gallu digwydd yn ystod y pandemig. Wrth i'r Llywodraeth ddechrau ystyried y gwaith sydd i'w ailgychwyn yn ystod y |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | misoedd nesaf, byddwn i'n hoffi eu gweld yn sicrhau bod gwaith ar y mater hwn yn symud ymlaen.<br><br>Yn ystod y cyfnod hwn mae fy swyddfa wedi bod yn hyrwyddo adnoddau gan Gymdeithas Genedlaethol Plant Byddar, sy'n cynnwys cwrs iaith arwyddion i deuluoedd sydd ar gael am ddim ar-lein. |
| **Eiriolaeth Iechyd** | **2015/16**<br>**Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod eiriolaeth cysylltiedig â iechyd i rai o dan 18 oed ar gael ac yn hygyrch i bawb sydd ei angen.**<br><br>**2017/18**<br>Rwy'n argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal archwiliad o ddarpariaeth eiriolaeth mewn lleoliadau iechyd i rai o dan 18 oed ac yn symud ymlaen gyda mesurau i sicrhau bod unrhyw fylchau a nodir yn cael eu llenwi.<br><br>Rwyf hefyd yn argymell bod yr wybodaeth i gleifion 'Gweithio i Wella' yn cael ei diweddaru i roi cyfarwyddyd i bobl ifanc a'u teuluoedd ynghylch sut gallan nhw gael mynediad i eiriolaeth wyneb yn wyneb mewn lleoliadau iechyd ledled Cymru.<br><br>**2018/19**<br>Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu safonau cenedlaethol ar gyfer eiriolaeth sy'n gysylltiedig â iechyd ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc sydd angen hynny a monitro | **No change** | Ym mis Awst 2019 fe wnes i ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu), lle nodais fod cyfle wedi'i golli yn y Bil i gynyddu eglurder a ffurfioli cynnig eiriolaeth i blant a phobl ifanc ar draws meysydd iechyd a gofal cymdeithasol.<br><br>Fodd bynnag, rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru bellach wedi cynnal dau gyfarfod y grŵp Eiriolaeth Iechyd, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob bwrdd iechyd yng Nghymru, a rhanddeiliaid pwysig eraill. Rwy'n gobeithio y bydd y grŵp hwn, wrth symud ymlaen, yn gallu cytuno ar drefniadau i roi sail statudol i eiriolaeth gysylltiedig â iechyd, yn seiliedig ar gasgliad o egwyddorion craidd.<br><br>Rwy'n credu bod angen i'r canllawiau newydd fod ar sail statudol, er mwyn iddyn nhw gael eu gweithredu'n briodol gan fyrddau iechyd. Mewn cyfnod mor ansicr, rwy'n cydnabod y bydd hyn yn anodd yn y tymor Senedd hwn, felly fe hoffwn weld Llywodraeth Cymru yn datblygu'r cynllun a awgrymwyd gan aelodau o'r grŵp eiriolaeth, sef yn gyntaf parhau i ymgynghori ar ganllawiau sy'n anstatudol ar hyn o bryd ac a fydd yn cael eu hanfon allan ar ffurf Cylchlythyr gan y Gweinidog. Yn ail, bod Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at yr holl fyrddau iechyd lleol i ofyn iddyn nhw am fanylion llawn eu darpariaeth eiriolaeth gyfredol sy'n gysylltiedig â iechyd ac i ofyn iddyn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cynnydd byrddau iechyd tuag at gomisiynu eiriolaeth ddigonol, a'u gwaith yn ei hyrwyddo. | | nhw ddatblygu canllawiau lleol (gyda chefnogaeth y grŵp eiriolaeth) i lenwi bylchau yn y trefniadau comisiynu. Yn drydydd, ystyried adnewyddu canllawiau rhan 9 ar gyfer trefniadau partneriaeth er mwyn edrych ar sut gallwn ni ymdrin â darparu eiriolaeth gysylltiedig â iechyd ar y cyd.<br><br>Dylai'r canllawiau newydd fydd yn destun ymgynghori gael eu seilio ar yr egwyddorion arweiniol y cytunwyd arnynt yn ein Seminar Iechyd Plant Flynyddol yn 2019, a'u trafod gyda grŵp eiriolaeth iechyd Llywodraeth Cymru.<br><br>Dylai'r gwaith hwn ddigwydd oddi mewn i weddill y tymor Senedd hwn. |
| **Cymorthdaliadau Trafnidiaeth** | **2016/17**<br>Rwy'n annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod cymorthdaliadau trafnidiaeth gyhoeddus i blant ar gael hyd at 18 oed, heb newid cymhwysedd yn 16 oed.<br><br>**2017/18**<br>Rwy'n argymell y dylai'r cynllun newydd, o leiaf, sicrhau bod pris tocyn plentyn yn cael ei estyn hyd at 18 oed.<br><br>Rwyf hefyd yn argymell bod CRIA yn cael ei gynnal ar gynigion i ddiwygio cynllun Fy Nhocyn Teithio, er mwyn canfod unrhyw grwpiau a allai gael eu heithrio, fel rhieni ifanc a gofalwyr, ymadawyr gofal sy'n dilyn hyfforddiant yn y gweithle neu brentisiaeth, a'r rhai sy'n gwneud gwaith gwirfoddol. | **Dim newid** | Rwy'n falch bod y cynllun Fy Nhocyn Teithio wedi cael ei ail-lansio, a'i fod bellach yn cwmpasu ystod oed ehangach.<br><br>Cafwyd 2,300 o geisiadau am deithio rhatach rhwng y dyddiad lansio, sef 14 Chwefror, a 12 Mai 2019.<br><br>Rwy'n nodi bod Prif Weinidog Cymru wedi mynegi ei awydd i gofrestru pob person ifanc 16-18 oed ar gynllun teithio consesiynol i ieuenctid, er mwyn sicrhau bod yr holl bobl ifanc gymwys yn cael y gostyngiad. Mae fy swyddfa wedi cyfarfod â swyddogion i drafod fy nghefnogaeth i'r cynllun hwn, gan ragweld y byddai hynny'n cynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar y cynllun, ac rwy'n deall bod swyddogion wedi bwriadu rhoi cyngor i'r Gweinidogion tuag at ddiwedd y flwyddyn, er bydd ymateb Covid-19 wedi effeithio ar hyn.<br><br>Yn ystod y pandemig, mae trefniadau trafnidiaeth wedi cael eu had-drefnu ac mae fy nhîm Ymchwiliadau a Chyngor wedi bod yn cynnig cefnogaeth i deuluoedd er mwyn sicrhau bod ganddyn nhw drafnidiaeth i |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | gyrraedd addysg a gwasanaethau. Bydda i'n parhau i gefnogi unigolion a hefyd i graffu ar y maes hwn wrth i'r ymateb i'r pandemig ddatblygu a newid. Mae trafnidiaeth ddiogel sydd ar gael i blant a phobl ifanc yn hanfodol os yw llawer i gael mynediad i'w hawliau a'u profi. |
| **Gofal Plant** | **2016/17**<br>Trwy beilot y cynnig gofal plant ac unrhyw gynllun dilynol dylai Llywodraeth Cymru sicrhau nad yw plant rhieni sydd ddim yn gweithio yn colli cyfle i gael y gofal plant ychwanegol sy'n cael ei gynnig i blant rhieni sy'n gweithio. | **No change** | Nid yw Bil Ariannu Gofal Plant (Cymru) yn berthnasol i blant rhieni nad ydyn nhw'n gweithio a rhieni nad ydyn nhw'n bodloni'r meini prawf a bennwyd o ran trefniadau gwaith.<br><br>Fe roddais i dystiolaeth i'r Pwyllgor yn ystod cam 1, ac rwyf hefyd wedi cyhoeddi papur safbwynt ar hyn, sydd i'w weld ar fy ngwefan yma<br><br>Mae'n destun siom i mi, er gwaethaf sylwadau a gyflwynwyd gennyf finnau ac eraill, y bydd rhai o'r plant a fyddai yn fy marn i yn elwa'n sylweddol o'r cynnig gofal plant yn methu cael mynediad iddo, a hynny ar sail amgylchiadau eu rhieni yn unig.<br><br>Er fy mod i'n dweud hynny'n wyliadwrus, rwy'n croesawu bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ystyried a fyddai'n bosibl ehangu'r cynnig i gwmpasu plant rhieni sy'n derbyn hyfforddiant neu rieini sydd yn y broses o ddychwelyd i'r gwaith. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn cyrraedd y nod o sicrhau bod cyfle cyfartal i bob plentyn 3 a 4 blwydd oed yng Nghymru, a'r plant a allai elwa fwyaf ohono yn enwedig, gael mynediad i'r cynnig.<br><br>Sylwaf hefyd ar lansiad dull Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar Llywodraeth Cymru ac edrychwn ymlaen at weld sut mae'r gwaith hyn yn mynd i alluogi mwy o blant i gael gafael ar y gefnogaeth gynnar sydd ei hangen arnynt i ddatblygu a chyflawni eu potensial. Croesawyd y cynnydd ond hyd yma nid yw hyn wedi arwain at newidiadau gwirionedddol i blant sy'n golygu bod hyn yn parhau i fod ar raddfa goch. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Covid 19<br>Mewn ymateb i bryderon iechyd cyhoeddus a thrwy'r pwerau a roddwyd iddynt o dan Ddeddf Coronafeirws 2020, newidiodd Llywodraeth Cymru natur ac argaeledd gofal plant yn sylweddol.<br><br>Cafodd y cynnig gofal plant ei atal a'i ddisodli gan Gynllun Cymorth Gofal Plant Coronafeirws (C-CAS). Yn ystod y cyfnod hwn mae fy swyddfa wedi derbyn nifer o alwadau a chysylltiadau gan deuluoedd ynghylch gofal plant. Rydyn ni wedi rhannu enghreifftiau dienw gyda swyddogion i gynyddu ymwybyddiaeth o faterion a llywio'u prosesau parhaus o wneud penderfyniadau. Yn ystod cyfarfod gyda'r Dirprwy Weinidog rwyf hefyd wedi codi mater cynaliadwyedd y sector, yn dilyn pryderon a godwyd gyda fi gan bartneriaeth Cwlwm.<br><br>Mae'n werth nodi bod cynllun presennol y Llywodraeth yn darparu ar gyfer gofal plant am ddim sydd heb ei seilio ar statws gwaith eu rhieni yn achos rhai plant agored i niwed. Mae'r pandemig hefyd wedi amlygu unwaith yn rhagor anghydraddoldebau addysgol sy'n bodoli rhwng y rhai sy'n gallu cael mynediad i gyfleoedd addysg plentyndod cynnar a'r rhai sy'n methu. Dylai'r cynnig addysg a gofal plentyndod cynnar yma yng Nghymru fod yn rhywbeth sy'n helpu i fynd i'r afael ag achosion anghydraddoldeb ac ailgydbwyso neu roi sylw i unrhyw fwlch cyrhaeddiad sy'n bodoli.<br><br>Gall darparu cymhorthdal gofal plant i helpu i roi arian yn ôl ym mhocedi rhieni incwm isel sy'n gweithio fod yn elfen bwysig o strategaeth gwrthdlodi, ond heb roi sylw i'r plant hynny sydd ddim yn cael eu cynnwys oherwydd statws di-waith eu rhieni, nid yw'n strategaeth plentyn-ganolog. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Bwlio** | **2016/17**<br>Dylai adolygiad Llywodraeth Cymru o'r Canllawiau 'Parchu Eraill' roi sylw i brofiadau uniongyrchol a safbwyntiau plant a phobl ifanc ynghylch effaith bwlio ac effeithiolrwydd polisïau ac arferion cyfredol. Dylai nodi'n glir sut mae'n bwriadu atal a thaclo bwlio yn genedlaethol, ac amlinellu sut bydd y gwaith hwn yn dylanwadu ar ddiwygio'r cwricwlwm a hyfforddi athrawon.<br><br>**2017/18**<br>Rwy'n argymell y dylai canllawiau 'Parchu Eraill' Llywodraeth Cymru fynnu bod ysgolion yn integreiddio strategaethau gwrthfwlio cadarn a lywiwyd gan blant a phobl ifanc i ddull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant.<br><br>**2018/19**<br>Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod hunanwerthuso ysgolion yn ymgorffori cofnod o'r holl achosion a mathau o fwlio. Dylai fod disgwyl i ysgolion ddefnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio, monitro a gwerthuso eu gwaith gwrthfwlio ataliol ac ymatebol, yn unol â'r dull gweithredu a ddisgrifiwyd yn y drafft diweddaraf o Parchu Eraill, a dylid asesu effaith hyn fel rhan o arolygu ysgolion. | Dim newid | I am delighted that the recently launched anti-bullying guidance for schools, Rights, Respect and Equity, is statutory for Governing Bodies and Local Authorities.<br><br>At consultation stage, this guidance did not have statutory status and my response called clearly for Government to re-think this in order for the guidance to have the necessary impact on the experiences of children and young people.<br><br>I congratulate Government for taking this step and for introducing new statutory requirements for schools to develop robust anti-bullying policies informed by children and young people, which set out how bullying will be recorded and monitored, and how anti-bullying will be embedded into the curriculum.<br><br>In addition, the guidance as a whole advocates a whole school approach to anti-bullying informed by children's rights and in which participation is a central element.  It is informed by the perspectives of children and young people throughout, in particular drawing on my Sam's Story report. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ecsbloetio Plant yn Rhywiol (CSE)** | **2016/17**<br>Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod data'n cael eu casglu'n gyson mewn perthynas â CSE ledled Cymru, er mwyn darparu darlun cenedlaethol o'r heriau sy'n ein hwynebu yng nghyswllt CSE. Dylai ddadansoddi'n fanwl a gweithredu ar sail heriau a bylchau a nodwyd gan y data cenedlaethol. | **No change** | Arweiniodd Llywodraeth Cymru ymarferiad peilot casglu data i geisio safoni'r wybodaeth sy'n cael ei chasglu, ond nid yw hynny eto wedi arwain at gymryd camau i sicrhau darlun cyson o ran data cenedlaethol. Rwyf wedi cael fy sicrhau y byddai camau eraill yn cael eu cymryd i roi sylw i'r argymhelliad hwn, ond nid wyf wedi gweld unrhyw gynnydd pellach.<br>Mae adolygu'r canllawiau statudol ynghylch Ecsbloetio Plant yn Rhywiol yn darparu cyfleoedd i roi sylw llawn i'r argymhelliad hwn, ac rwyf wedi ymateb i'r ymgynghoriad gan nodi hynny. Rwyf hefyd wedi parhau i godi'r mater hwn yn fy sesiynau bord gron ar Ecsbloetio/Cam-drin plant yn rhywiol.<br><br>Awgrymwyd y gallai'r trefniadau newydd o dan y côd ymarfer ar gyfer mesur perfformiad y gwasanaethau cymdeithasol roi sylw i'r mater hwn, ac fe wnes i ddarparu ymateb ysgrifenedig i'r cynnig hwnnw yn ogystal. Mae'r canllawiau terfynol bellach wedi'u cyhoeddi, a bydd yn awr yn ofynnol i awdurdodau lleol adrodd faint o gyfarfodydd strategaeth sydd wedi cael eu cynnal ar ôl i blentyn gael ei nodi fel un sydd mewn perygl o gael ei ecsbloetio'n rhywiol. Mae hyn yn debygol o helpu i roi syniad o lefel amlygrwydd hyn yma yng Nghymru, ac mae'n welliant ar y trefniadau presennol. Fodd bynnag, bydda i nawr yn edrych am sicrwydd gan y Llywodraeth eu bod nhw naill ai'n gallu tystio bod ganddyn nhw ddarlun cenedlaethol digonol i lywio'u cynllunio (trwy gasglu data a/neu ffynonellau eraill) neu gynllun clir ar gyfer sut mae rhoi sylw i'r bylchau wrth gasglu data cenedlaethol yn gyson, ochr yn ochr â llinell amser.<br><br>Covid 19<br>Er mwyn gallu ymateb i heriau uniongyrchol argyfwng y Coronafeirws, mae Llywodraeth Cymru wedi atal y gwaith ar yr argymhelliad hwn dros dro. Fodd bynnag, bydda i'n disgwyl iddyn nhw ailafael yn hyn ar y cyfle cynharaf, er mwyn sicrhau bod darlun cenedlaethol ar gael ac yn cael ei ddefnyddio i lywio cynllunio a phenderfyniadau yn y tymor Senedd hwn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam-drin ac ecsbloetio rhywiol** | **2017/18**<br>Rwy'n argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau y dylai darpariaeth y Ganolfan Atgyfeirio ar gyfer Ymosodiadau Rhywiol yn ardal pob bwrdd iechyd gynnwys mynediad 24/7 i rota o bediatregwyr ac archwiliwyr meddygol fforensig sydd wedi cael hyfforddiant addas, fel nad oes rhaid i unrhyw blentyn aros oriau lawer, neu ddiwrnodau hyd yn oed, am archwiliad, a bod gwasanaethau cwnsela ac ymadfer digonol ar gael i ddioddefwyr ledled Cymru. | **Dim Newid** | Mae'r ddarpariaeth yn dal i amrywio ar draws Cymru, ac mae hynny'n effeithio ar brofiadau plant.<br><br>Rwy'n cydnabod, fodd bynnag, fod cynnydd cadarnhaol wedi cael ei wneud, wedi'i arwain gan Fwrdd Iechyd Lleol Caerdydd a'r Fro, i sicrhau gwasanaeth interim bellach ar gyfer yr ardaloedd hyn. Mae data gwerthuso cychwynnol yn awgrymu bod hyn wedi cael effaith gadarnhaol, i bob golwg, ar brofiadau plant o dan 14 oed, o gymharu â'r trefniadau blaenorol. Rwy'n falch o glywed, yn dilyn fy nhrafodaeth â nhw, fod y gwerthusiad wedi ceisio barn plant a phobl ifanc. Er nad yw hyfforddiant a phrofiad gweithwyr proffesiynol perthnasol yn rhywbeth y gellir rhoi sylw iddo dros nos, bydda i'n parhau i roi pwysau ar y rhai dan sylw ynghylch y llwybr mwyaf diogel, ond hefyd yr un mwyaf amserol i sicrhau bod rhai 14 oed a throsodd yn cael mynediad at gefnogaeth bediatrig.<br><br>Bydda i'n parhau i fonitro'r ddarpariaeth bresennol sydd ar gael yma yng Nghymru, yn enwedig eleni pan fydd rhagor o waith yn cael ei wneud, fel rwy'n deall, o ran cyflenwi. darpariaeth therapiwtig ac elfennau eraill o wasanaeth SARCS yn y dyfodol. Yn ogystal, gwnaed ymrwymiadau eraill yng nghyswllt cyflenwi darpariaeth therapiwtig yn nhrydedd flwyddyn Cynllun Gweithredu Cenedlaethol y Llywodraeth ar Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol. Gyda golwg ar hynny, bydda i'n ymgysylltu â'r bobl briodol i sicrhau bod rhaglenni gwaith yn cael eu cydlynu a'u bod yn canolbwyntio ar ddefnyddio adnoddau yn y ffordd orau er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl i blant. Dylai hynny gynnwys archwilio'r gwersi a ddysgwyd o'r model tai plant. Rwy'n croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru, ym mis Mawrth 2020, wedi cynnal sesiwn cyfnewid ymarfer i drafod y gwaith yma yng Nghymru ac i glywed gan weithwyr proffesiynol o'r peilot tŷ plant yn Llundain, ac rwy'n edrych ymlaen at weld beth fydd yn dilyn o ganlyniad i'r cyfnewid gwybodaeth yma. Fodd bynnag, yn fuan wedi i'r digwyddiad yma gael ei gynnal, mae |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | gwaith Llywodraeth Cymru wedi canolbwyntio ar yr ymateb i anghenion diogelu plant yn ystod y pandemig, gan oedi'r drafodaeth ynghylch cynllunio i'r dyfodol. Wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio, bydda i'n disgwyl diweddariad gan Lywodraeth Cymru a bwrdd prosiect SARC ynghylch eu gwaith yn y dyfodol. |
| **Perthnasoedd Iach** | **2017/18**<br>Rwy'n argymell bod Llywodraeth Cymru yn symud ymlaen gydag argymhellion adroddiad eu Panel arbenigol, ac yn gwneud addysg perthnasoedd iach yn rhan statudol o'r cwricwlwm newydd. Dylai addysg perthnasoedd iach fod wedi'i seilio ar hawliau, a chael ei llywio gan ymwneud y dysgwr â'r dyluniad. | Dim newid | Roedd Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ar y Cwricwlwm ac Asesu yn cynnwys Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb (RSE) yn y ddeddfwriaeth sylfaenol arfaethedig ar gyfer y cwricwlwm newydd. Rwy'n croesawu hynny, a hefyd y pwyslais ar berthnasoedd iach oddi mewn i'r drafft o Faes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Llesiant.<br><br>Rwyf hefyd yn cymeradwyo bwriad y Llywodraeth i sicrhau mynediad at Addysg Perthnasoedd a Rhywedd yn y Bil Cwricwlwm ac Asesu, sy'n dileu hawl rhieni i dynnu plant a phobl ifanc allan o Addysg Perthnasoedd a Rhywedd. Rwy'n cefnogi hyn yn gadarn fel cam hanfodol at ddiogelu plant a sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael gwybodaeth oed-briodol er mwyn gwneud dewisiadau iach a chadw'n ddiogel.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn sefydlu Gweithgor Perthnasoedd a Rhywioldeb i gefnogi datblygiad y canllawiau. Mae angen mawr am hyn gan fod drafft blaenorol o'r canllawiau hyn (a fu'n destun ymgynghori yng ngwanwyn 2019) yn ddiffygiol o ran manylion a chynnwys. Mae fy swyddfa wedi derbyn gwahoddiad i ymuno â'r grŵp hwn a bydd yn gweithio i sicrhau bod y canllawiau a gynhyrchir yn adlewyrchu dull gweithredu cyfranogol, sy'n seiliedig ar hawliau. |
| **Rhaglen Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan** | **2017/18**<br>Rwy'n argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithredu i gytuno ar fodel ariannu gyda'r pedwar heddlu, er mwyn sicrhau bod holl | Dim newid | Yn dilyn cynnig i leihau'r cyllid ar gyfer y rhaglen hon, mae'r Llywodraeth a Heddluoedd wedi cytuno i ddarparu'r cyllid hwnnw yn 2019/2020. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau bydd cyllid ar gyfer y rhaglen yn yn 2020/2021. Mae hwn yn gan cadarnhaol, ond rwy'n disgwyl gweld yr |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ysgolion Cymru yn parhau i elwa o gael perthynas gadarnhaol gyda swyddog cyswllt yr heddlu, a bod rôl y rhaglen o ran cyfrannu at Faes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Llesiant yn y cwricwlwm newydd yn gydlynus ac yn addas at y dyfodol. Dylid cynnal asesiad o effaith unrhyw benderfyniad ynghylch dyfodol y Rhaglen ar hawliau plant. | | adroddiad a luniwyd yn 2019 a oedd yn edrych ar gynnwys, cyrhaeddiad ac effaith Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion, a bydda i'n parhau i gadw golwg ar y rhaglen trwy fy ngrŵp bord gron ar Gam-drin Plant yn Rhywiol. |
| **Darpariaeth breswyl ar gyfer Anghenion Iechyd Meddwl/ cymhleth** | **2017/18**<br>Rwy'n argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau pendant tuag at gomisiynu darpariaeth newydd sy'n gallu diwallu anghenion gofal a iechyd meddwl y nifer bach o bobl ifanc sydd ag anawsterau ymddygiad ac emosiynol heriol iawn, nad oes fawr ddim darpariaeth breswyl addas ar eu cyfer yng Nghymru ar hyn o bryd.<br><br>**2018/19**<br>Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cyllid newydd wedi'i neilltuo'n benodol at ddibenion darpariaeth breswyl iechyd meddwl a gofal cymdeithasol a gomisiynwyd ar y cyd ar gyfer y nifer bach o blant a phobl ifanc yng Nghymru sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth.<br>Dylai Llywodraeth Cymru weithredu hefyd i sicrhau bod yr unedau presennol ar gyfer cleifion iechyd meddwl mewnol yng Nghymru yn gwneud y newidiadau sy'n | **Dim newid** | Fe gefais i gyfarfod gyda Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr sefydliadau oedd yn cynnwys Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSCC), Iechyd yng Nghymru (HIW) a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Gorffennaf 2019. Yn y cyfarfod, cytunwyd y byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried rhaglen waith bosibl i sefydlu darpariaeth o'r fath.<br><br>Yn dilyn y cyfarfod hwn, sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen i archwilio'r dystiolaeth a chyflwyno argymhellion ynghylch yr angen am ddarpariaeth o'r fath. Mewn llythyr ar 18 Mehefin 2020 cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog fod gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi dod i ben, gyda chasgliadau allweddol a fydd yn sylfaen ar gyfer cyfnod nesaf y gwaith. Fe gwrddais i â Llywodraeth Cymru a'r BPRhau yn gynnar ym mis Gorffennaf i drafod canfyddiadau'r Grŵp a'r ffordd arfaethedig ymlaen. Roedd cytundeb cryf bod angen rhoi'r ddarpariaeth hon o ran llety diogel ar waith fel blaenoriaeth. Mae rhaid yn awr i Lywodraeth Cymru arwain y ffordd wrth sicrhau bod y cynigion yn cael eu costio'n llawn, a bod y ddarpariaeth yn diwallu anghenion plant, yn agos at eu cartrefi. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | angenrheidiol i estyn yr ystod o bobl ifanc sy'n medru derbyn gofal yn ddiogel yno.<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i ddatblygu darpariaeth iechyd meddwl ddiogel yng Nghymru ar gyfer y nifer bach iawn o blant sydd angen y gofal hwn. | | Mae'r drafft o Ran 9 o'r côd ymarfer, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, yn cynnwys disgwyl bod gan y BPRhau strategaeth gomisiynu ranbarthol ar gyfer gofal preswyl i blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth, ac mae hynny i'w groesawu. Mae manylebau gwasanaeth newydd yr unedau presennol ar gyfer Cleifion Mewnol Iechyd Meddwl yn cynnwys darpariaeth newydd ar ffurf Unedau Dibyniaeth Uchel, a ddylai olygu bod rhai o'r bobl ifanc oedd yn methu derbyn gofal yn yr unedau cleifion mewnol o'r blaen bellach yn gallu cael hynny. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae'n aneglur a fydd hynny'n digwydd yn ymarferol, a byddaf yn craffu'n fanwl ar y sefyllfa.<br><br>Er bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn fy argymhelliad i ddatblygu'r ddarpariaeth ddiogel yng Nghymru, nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod hynny'n digwydd. Mae hyn yn destun pryder arbennig yn sgîl penderfyniad diweddar GIG Cymru i beidio â lleoli pobl ifanc yn narpariaeth ddiogel St Andrew's yn Lloegr bellach. Wrth gwrs, rwy'n falch bod y penderfyniad pwysig hwn wedi cael ei wneud ar sail diogelwch, ond mae'n golygu bod nifer y gwelyau sydd ar gael i bobl ifanc o Gymru wedi lleihau ymhellach. Bellach mae arnom ni angen darpariaeth ddiogel newydd ar frys yng Nghymru.<br><br>Yn ystod a chyn yr argyfwng, rydyn wedi gweld unedau cleifion mewnol yn brwydro i ddod o hyd i ateb priodol yn gyflym i blant a phobl ifanc sy'n aros am ofal angenrheidiol. Yn ddiweddar mae gwasanaethau wedi gwneud defnydd cyfyngedig o 'welyau ymchwydd' a gomisiynwyd gan ddarparwyr annibynnol pan fu lle i bobl ifanc o fewn unedau cleifion mewnol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Elw mewn gofal** | **2017/18**<br>Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswyddau o dan Adran 16 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i gynnwys plant a phobl ifanc wrth ddylunio a chyflwyno gwasanaethau, a chynyddu'r amrywiaeth o wasanaethau nid-er-elw, fel bod modd gwario arian sy'n cael ei fuddsoddi mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol ar wella'r canlyniadau i blant, yn hytrach na darparu elw i gyfranddalwyr.<br><br>**2018/19**<br>Mae rhaid i Lywodraeth Cymru ymrwymo i gymryd camau pendant o fewn y flwyddyn nesaf tuag at leihau ac yn y pen draw ddileu gwneud elw mewn gwasanaethau gofal plant, heb niweidio'r trefniadau presennol i blant a phobl ifanc. | Dim newid | Rwy'n ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu'r Athro Andrew Pithouse i archwilio sut mae modd "aildrefnu cydbwysedd" gwasanaethau gofal i blant, a bod y gwaith hwnnw wedi archwilio'r sefyllfa gomisiynu gyfredol yng Nghymru ar gyfer lleoliadau maeth a phreswyl a modelau gofal amgen.<br><br>*Rwy'n ymwybodol bod argyfwng presennol y Coronafeirws wedi achosi oedi yn y gwaith polisi hwn i Lywodraeth Cymru.<br><br>Hyd yma nid wyf yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori â phlant a phobl ifanc i glywed eu barn nhw ar y pwnc hwn. Yn y cyfamser, fodd bynnag, mae pobl ifanc wedi dod ataf fi i fynegi pryder bod eu darparwyr yn derbyn llawer o arian, a'u bod nhw ddim yn siŵr i ble mae'n mynd.<br><br>Rwyf wedi rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar y pwnc hwn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, fel y mae eraill, gan gynnwys grŵp o bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal.<br><br>Mae rhai Awdurdodau Lleol yn darparu rhai elfennau yn fewnol ond mae hyn yn digwydd ar sail unigol gan nad oes cyfarwyddyd cenedlaethol. Datgelodd yr adolygiad thematig o Gartrefi Gofal i Blant gan Plant yng Nghymru nad oes ond 19% o gartrefi yn cael eu rheoli'n wirfoddol neu eu rheoli gan awdurdod lleol.<br><br>Er fy mod i'n sylweddoli bod rhaid peidio â thanseilio sefydlogrwydd y sector ag unrhyw newidiadau sydyn, rwy'n credu y byddai gweithio tuag at ddileu elw fel nod polisi tymor hwy yn cael ei groesawu'n gynnes gan bobl ifanc a'r rhai sy'n comisiynu gwasanaethau fel |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Rydyn ni'n cydnabod cymhlethdod y gwaith hwn, ac ni fyddem am i unrhyw blentyn sy'n gwneud yn dda mewn lleoliad gael y sefyllfa honno wedi'i thanseilio gan y galwadau hyn. Mae llawer o gartrefi a darparwyr yng Nghymru yn nwylo cwmnïau bach, a dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut orau y gall gefnogi'r rhain i bontio a dod yn ddarparwyr trydydd sector neu fenter gymdeithasol cofrestredig. Byddai hynny'n sicrhau mwy o dryloywder o ran y costau sy'n gysylltiedig â lleoliadau ac yn rhoi mwy o sicrwydd i blant, staff a gofalwyr fel ei gilydd nad yw cwmnïau'n elwa o wariant cyhoeddus ar blant sy'n agored i niwed. |
| **Pontio ym maes Iechyd** | **Newydd ar gyfer 2018/19**<br>Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gan fyrddau iechyd ganllawiau effeithiol a fydd yn arwain at blant a phobl ifanc yn cael mynediad at lwybrau cydlynus amlasiantaeth ar gyfer pontio i wasanaethau oedolion. Dylai plant a phobl ifanc gael eu cynnwys yn uniongyrchol yn y broses o greu eu cynlluniau gofal.<br>Dylai'r canllawiau hyn sicrhau hefyd bod pobl ifanc 16 ac 17 oed sy'n cael mynediad i wasanaethau iechyd am y tro cyntaf, gan gynnwys gofal brys, yn cael llwybr clir at ofal oed-briodol. | **Eitem newydd** | Rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru wedi datblygu canllawiau drafft, sy'n destun ymgynghori ar hyn o bryd. Rwy'n arbennig o falch bod Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu nifer o'n hawgrymiadau, a bod y canllawiau drafft yn cynnwys egwyddorion sylfaenol a lywiwyd gan hawliau dynol plant. Mae'r canllawiau drafft hefyd yn cydnabod y materion mae pobl ifanc 16 ac 17 oed yn eu hwynebu wrth gael mynediad i wasanaethau iechyd am y tro cyntaf.<br>Fodd bynnag, mae sawl elfen o'r canllawiau newydd drafft y byddwn ni'n ceisio eglurhad yn eu cylch. Mae hynny'n cynnwys yn arbennig atebolrwydd byrddau iechyd i gyflawni'r canllawiau hyn, a'r angen i bob bwrdd iechyd fod ag unigolyn penodol sy'n cael amser, lle ac adnoddau i gyflawni rôl gydlynu ar draws maes pontio i wasanaethau oedolion.<br><br>Bydd angen i'r canllawiau hyn ddangos y byddant yn gwella'r canlynol:<br><br>1. y profiad ar gyfer plant a phobl ifanc ac oedolion ifanc rydyn ni'n gwybod eu bod nhw ddim ar hyn o bryd yn cael y gefnogaeth amlasiantaeth, wedi'i rheoli'n sensitif, y mae arnyn nhw ei hangen i'w helpu i fynd trwy'r broses o symud o wasanaethau plant i rai oedolion mewn modd mor llyfn â phosibl, gan ymateb i faterion sy'n dod i'r amlwg |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | 2. y berthynas rhwng gwasanaethau plant ac oedolion, lle mae'r ddau yn gyfrifol **ar y cyd** am ofal y person ifanc sy'n symud rhwng gwasanaethau plant a rhai oedolion<br>3. aseinio cyfrifoldeb i unigolyn/unigolion er mwyn sicrhau nad yw gofal pobl ifanc yn 'colli momentwm'. |